Y Capel Bach

Mr. Geraint Williams

Organydd

Eglwys Gynulleidfaol
BETHESDA
Llangennech

ADRODDIAD
Am y flwyddyn 2024

DRAMA'R NADOLIG

DERBYN AELOD NEWYDD

Veronica Davies

BEDYDD
Efa Mair Harries

Y Parchedig LLEWELYN PICTON JONES, B.Sc., M.Ed.

ANERCHIAD Y GWEINIDOG

Chwefror 2025

Annwyl Gyfeillion,

Hyfrydwch unwaith eto yw cael cyflwyno adroddiad Eglwys Bethesda am y flwyddyn 2024 i'ch sylw caredig gan ddymuno'n dda i chi gyd ar ddechrau blwyddyn newydd o wasanaeth mewn ymddiriedaeth yn Nuw. *"Gwawriodd blwyddyn newydd eto, o'th drugaredd, Arglwydd cu"* – a gwaith yr eglwys yw cydnabod trugaredd yr Arglwydd mewn addoliad, tystio i'w gariad mewn gair, a rannu a byw y cariad hwnnw mewn gweithredoedd.

Erbyn hyn mae dros 25 mlynedd wedi mynd heibio ers imi gychwyn fy ngweinidogaeth yma ym Methesda ar y 1af o Ebrill 1999 ac mae wedi bod yn fraint i wasanaethu'r Arglwydd yn eich plith yn ystod yr amser yma. Ga'i ddiolch i chi gyd am eich cyfeillgarwch a'ch cefnogaeth i Marie Lynne a minnau yn ystod y cyfnod yma. Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig i ddathlu'r achlysur ar Ddydd Sul Ebrill 14eg, 2024 ac fe ymddangosodd erthygl yn y Tyst o dan y pennawd *"Diolch a Dathlu yn Llangennech".* Diolch i chi fel Eglwys am y rhodd hael a'r blodau a gyflwynwyd i Marie Lynne a minnau yn ystod yr oedfa. Mae'r erthygl yn gorffen gyda'r geiriau hyn: *"Yn dilyn oedfa hapus a bendithiol gwahoddwyd pawb i'r Capel Bach i fwynhau lluniaeth ysgafn, darn o gacen y dathlu a chyfle i gymdeithasu. Diwrnod o ddathlu a diolch a erys yn hir yn y cof!".* Wrth i'r adroddiad yma ddod i law, byddaf wedi dathlu deng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth ers fy ordeinio yn y Tabernacl, Hendygwyn.

Fel y gwyddom mae angen rhywrai i ymgymryd â chyfrifoldebau penodol i gynnal gwaith yr eglwys. Y mae ein diolch yn fawr unwaith eto am lafur cariad pawb sydd yn ffyddlon ac yn cyfrannu i gefnogi'r eglwys, ond rydym yn diolch yn arbennig i'r rhai sydd yn ymgymryd â chyfrifoldebau amrywiol – yn ddiaconiaid, swyddogion, organydd, yn paratoi'r plant a'r ieuenctid, y sawl sy'n glanhau ac yn harddu'r cysegr, yn paratoi bwrdd y cymun, yn gwneud a threfnu'r gwaith cynnal a chadw, trefniadau'r fynwent, a phob un arall sy'n cyfrannu i waith yr eglwys mewn gwahanol ffyrdd.

"Gwaith eich ffydd, llafur eich cariad" (1 Thes. 1:3).

Testun o lawenydd yw'r cyd-weithio a'r cyd-addoli hapus rhwng Bethesda ag Eglwys Bryn Seion . Mae hyn yn fuddiol i'r ddwy eglwys ac edrychwn ymlaen i barhau â'r trefniant hwn yn y dyfodol eto.

DATHLU 25 MLYNEDD O WEINIDOGAETH
Y PARCHEDIG LLEWELYN PICTON JONES
YM METHESDA

DATHLU 25 MLYNEDD O WEINIDOGAETH
Y PARCHEDIG LLEWELYN PICTON JONES
YM METHESDA

Diolch i chi gyd am eich ymateb cadarnhaol eleni eto i *Apêl 'Operation Christmas Child', Apêl 'Cymorth Cristnogol'* y pentre ac i *Banc Bwyd Llanelli'.* Mae cefnogi'r achosion da yma yn parhau i fod yn rhan bwysig o'n gwaith a'n tystiolaeth fel Eglwys Iesu Grist.

Yn ystod y flwyddyn, hyfrydwch oedd derbyn Mrs.Veronica Davies yn aelod newydd gan hyderu iddi dderbyn bendith yn ein plith. Pleser hefyd oedd bedyddio Efa Mair Harries gan ddymuno'n dda i'r teulu oll i'r dyfodol.

Trist cofnodi inni golli, drwy farwolaeth, tri a godwyd ym Methesda sef Mr.Colin Roberts, Mrs.Joan Williams a Mrs.Ena Davies. Diolchwn i Dduw am y cyfeillion yma a gweddïwn ar i Dduw gynnal a nerthu eu teuluoedd yn eu galar a'u hiraeth. Cofiwn hefyd am eraill o'n haelodau sydd wedi colli perthnasau agos yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Boed iddyn nhw hefyd brofi o ddiddanwch Duw. Dymunwn fendith Duw hefyd ar yr aelodau sy'n dioddef o afiechyd, y rhai sy'n gaeth i'w cartrefi, y rhai sy mewn cartrefi preswyl a'r rhai sydd mewn gofid am wahanol resymau. Boed iddynt ganfod Duw yn Dduw hawdd ei gael mewn cyfyngder.

Parhau i ffynnu mae'r Dosbarth Beiblaidd Undebol yn y Capel Bach sydd yn cwrdd bob yn ail brynhawn Ddydd Mawrth. Aberhonddu oedd cyrchfan ein Pererindod eleni a chafwyd diwrnod hyfryd yn ymweld â'r Gadeirlan a chapel hanesyddol y Plough. Edrychwn ymlaen eleni at barhau i fwynhau y gwmniaeth ddifyr, y trafod adeiladol a'r bererindod flynyddol.

Braint yw bod yn aelod o Eglwys Iesu Grist – ond braint sy' hefyd yn gofyn am ymrwymiad. Rydym yn byw mewn dyddiau o ddifaterwch ysbrydol yn ein cymdeithas ac yn ein gwlad. Ga'i apelio ar bob aelod, os yw iechyd a nerth yn caniatáu, i fynychu'r oedfaon yn gyson er mwyn hyrwyddo gwaith y Deyrnas yn ein calonnau ac yn y gymdeithas sydd o'n hamgylch.

Diolchwn i Dduw am ein harwain eto'r flwyddyn a aeth heibio a boed i'r Ysbryd Glân ein harwain i'r dyfodol gydag ymrwymiad a brwdfrydedd. Ni wyddom beth fydd profiadau'r flwyddyn hon, ond cyflawnwn ein gwaith yn hyderus gan gofio y bydd Duw yn ein cynnal, yn ein nerthu ac yn ein ysbrydoli yn ein ymdrechion er lles Ei Deyrnas.

"Bydded i Arglwydd tangnefedd ei hun roi tangnefedd ichwi bob amser ym mhob modd! Bydded yr Arglwydd gyda chwi oll!" (2 Thesaloniaid 3:16)

Yr eiddoch yng Nghrist,

Llewelyn Picton Jones

SWYDDOGION YR EGLWYS

Gweinidog:
Y Parchedig Ll. P. JONES, B.Sc., M.Ed.
50 Heol Glanffrwd,
Pontarddulais, Abertawe SA4 8QE
Ffôn: 01792-882889
Symudol: 07792 823877

Diaconiaid:

	Etholwyd
Mr. KENNETH JOHN, 3,C1ôs Pendderi	1971
Mr. J. COLIN LEE, Heol Troserch	1990
Mrs. MARGARET HARRIES, Alltyfran	1999
Mr. DESMOND JONES, Haulfryn	1999
Mr. KEITH THOMAS, Tirgof	1999
PARCH. GERALD JONES, Parc Morlais	2017

Ysgrifenyddes:
Mrs. MARGARET HARRIES, Fferm Alltyfran
(Ffôn: 772363)

Ysgrifenyddes y Pulpud:
Mrs. MARIE-LYNNE JONES
50, Heol Glanffrwd,Pontarddulais
(Ffon: (01792-882889)

Trysorydd:
Mr. KEITH THOMAS, 66, Tirgof, Llangennech
(Ffôn: 821955)

Ysgrifennydd Ariannol:
Mr. COLIN LEE, 4A, Heol Troserch, Llangennech
(Ffôn: 823719)

Cyhoeddwr	Mr. DESMOND JONES
Organydd	Mr.GERAINT WILLIAMS
Cyfeilyddes	Mrs.LYNWEN GALLIMORE
Ysgrifennydd y Fynwent	Mr. GWYNNE DAVIES

SULIAU BETHESDA 2025 (Bore am 11.00)

Gorffennaf 6	10.30 Huw Jones (Ymuno gyda Bryn Seion)
Gorffennaf 13	Parchg Gareth Morgan Jones
Gorffennaf 20	Gweinidog
Gorffennaf 27	Parchg Derek Rees
Awst 3	Gweinidog (Cymun) (Bryn Seion yn ymuno)
Awst 10	Bryn Seion – Parchg Ian Sims (10.30)
Awst 17	Dim Oedfa
Awst 24	Dim Oedfa
Awst 31	Dim Oedfa
Medi 7	10.30 C.P . Bryn Seion – Parchg Gwyn Elfyn
Medi 14	Gweinidog (Cymun)
Medi 21	Gweinidog
Medi 28	Parchg Randolph Thomas
Hydref 5	Gweinidog (Cymun)
Hydref 12	10.30 Oedfa Diolchgarwch - Bryn Seion
Hydref 19	Gweinidog
Hydref 26	Parchg Randolph Thomas
Tachwedd 2	Parchg Derek Rees
Tachwedd 9 *(Sul y Cofio)*	Gweinidog (Cymun) - (Bryn Seion yn ymuno)
Tachwedd 16	Gweinidog - Oedfa '*Operation Christmas Child*'
Tachwedd 23	Parchg Andrew Lenny
Tachwedd 30	Gweinidog (Cymun) – Adfent
Rhagfyr 7	Parchg Derek Rees
Rhagfyr 14	3pm - Gwasanaeth Nadolig Plant/Ieuenctid
Rhagfyr 21	Gweinidog / Aelodau
	6.00 - Oedfa Golau Cannwyll – Hope-Siloh
Rhagfyr 25 *(Y Nadolig)*	10.00 Oedfa Gymun – Bryn Seion
Rhagfyr 28	Gweinidog/Marie Lynne (Bryn Seion yn ymuno)

SULIAU BETHESDA 2025 (Bore am 11.00)

Ionawr 5	Gweinidog (Cymun) – (Bryn Seion yn ymuno)
Ionawr 12	Parchg Gareth Morgan Jones
Ionawr19	Parchg Gerald Jones
Ionawr 26	Parchg Guto Llywelyn
Chwefror 2	Parchg Dafydd Morris
Chwefror 9	Gweinidog (Cymun)
Chwefror 16	Gweinidog
Chwefror 23	Gareth Watkins
Mawrth 2	Gweinidog-Gwasanaeth Gŵyl Dewi (Cymun)
Mawrth 9	Gweinidog
Mawrth 16	Parchg Gerald Jones (Bryn Seion yn ymuno)
Mawrth 23	Parchg Randolph Thomas
Mawrth 30	Gweinidog (Cymun)
Ebrill 6	Parchg Andrew Lenny
Ebrill 13 (*Sul y Blodau)*	Gweinidog
Ebrill 18 *(Y Groglith)*	2.30 Gweinidog (Cymun) (Bryn Seion yn ymuno)
Ebrill 20 *(Y Pasg)*	Gweinidog (Cymun)
Ebrill 27	11.00 C.P.Salem – Parchg Isaias Grandis
Mai 4	Dr Dai Lloyd
Mai 11	Parchg Ddr Alun Tudur - Cyfarfod Pregethu
Mai 18	Oedfa Cymorth Cristnogol – Bryn Seion
Mai 25	Gweinidog (Cymun)
Mehefin 1	2.30 a 6 - Cymanfa Ganu Llangennech - Bethesda
Mehefin 8 (*Y Pentecost)*	Dr Dai Lloyd
Mehefin 15	Parchg Randolph Thomas
Mehefin 22	Gweinidog
Mehefin 29	Gweinidog (Cymun)

YMDDIRIEDOLWYR

Etholwyd 1973

Mr. Kenneth John

Etholwyd 2005

Mr.Desmond Jones
Mr.Colin Lee
Mr.Keith Thomas

AELOD NEWYDD

Veronica Davies

BEDYDD

Efa Mair Harries

MARWOLAETHAU

Colin Roberts
Joan Williams
Ena Davies

Dydd Sul am 11.00	Oedfa Bore ac Ysgol Sul
Dydd Mawrth am 2.00	Dosbarth Beiblaidd

CYFARWYDDIADAU I'R AELODAU

- Gofynnir i bob Aelod ddefnyddio amlenni plaen i holl gasgliadau'r Eglwys. Mae cyflenwad o amlenni i gael yn y cyntedd.

- Awgrymir yn garedig i Aelodau a symudant i eglwysi eraill y disgwylir iddynt cyn cael 'Llythyr aelodaeth' fod wedi gwneud eu rhan yn rhesymol os yn eu gallu, i gyflawni eu rhwymedigaeth ariannol at yr Eglwys.

- Pan fydd marwolaeth, dymunir ar y perthnasau ymgynghori a'r Gweinidog cyn trefnu amser yr angladd.

- Awgrymir yn garedig i unrhyw un a wyr am afiechyd ymhlith Aelod-au'r Eglwys wneud y peth yn hysbys i'r Gweinidog, neu un o'r diaconiaid fel y gellir ymweld a hwynt heb golli amser.

- Disgwylir i bob Aelod gyflawni ei addewid tuag at holl gasgliadau'r Eglwys erbyn y Sul olaf o'r flwyddyn, er mwyn hwyluso gwaith yr Ysgrifennydd Ariannol ynglyn a'r Adroddiad.

- Y Fynwent: Rhaid ymgynghori a Ysgrifennydd y Fynwent, cyn trefnu a'r torrwr beddau ynghylch claddedigaeth. Ni ellir cadw manylion ar wahan i hynny.

PLANT A IEUENCTID Y CAPEL

Efa Haf George
Ffion Mari George
Siwan Haf James
Dafydd Harri John
Elen Gwenllian John
Elin Thomas
Catrin Thomas
Iwan Thomas

Rhodri Harries
Lois Harries
Hannah Harries
Hannah Lois Thomas
Ifan Elis Thomas
Cadi Mai Evans
Mali Lloyd Evans
Bryn Lawlor
Ethni Lawlor

YR EGLWYS AM Y FLWYDDYN 2024

TALIADAU

	£ c
Cyflog y Gweinidog	7999.96
Treth Incwm	2000.04
Bwrdd Trydan - SSE	591.62
Pregethwyr Achlysurol	1150.00
Adeiladau'r Capel	1213.37
Yr Undeb	470.00
Olew i'r Capel	614.57
Adroddiadau	95.00
Anrhegion i'r plant (Nadolig)	105.50
Lluniaeth Parti Nadolig	425.20
Dŵr Cymru	159.90
Yswiriant (Congregational)	4782.86
Organyddion	725.00
Cyfundeb Dwyrain Caerfyrddin	30.00
Trysorfa Gweddwon Gweinidogion	45.00
Trin y Fynwent a'r coed	2741.00
Nwyddau a blodau	69.71
Genhadaeth	200.00
Cymorth Cristnogol	489.00
Samaritan's Purse - Operation Christmas Child	114.00
Banc Bwyd Llanelli	400.00
Gwin Cymundeb	14.00
Beibl y Plant a Blwyddiaduron	34.00
Cymdeithas y Beibl	60.00
Taith Dosbarth Beiblaidd—Cyfraniad at y bws	87.00
Lluniaeth/Anrhegion - Dathlu 25 mlynedd o wasanaeth y Gweinidog ym Methesda	1644.39
Gwaith Cyfreithiol—Ymddiriedolwyr	500.00
Mewn Llaw Rhagfyr 31 2024	10473.34
	£37,234.46

*** Yr wyf wedi archwilio'r llyfrau a'r Cyfrifon ac yn tystio eu bod yn gywir ac yn cytuno a hwynt.

Mawrth 8fed 2025 Mr.Eric M.Lewis

TRYSORFA GYFFREDINOL

DERBYNIADAU

	£ c
Mewn Llaw Ionawr 2024	11537.08
Casgliad Wythnosol	12967.65
Cynllun Rhodd Cymorth (Treth Incwm)	1937.24
Llog 'Nationwide'	2704.88
Clwb 'Camcorder' Llangennech	434.00
Ad-daliad 'Cymdeithas y Llan a'r Bryn'	340.97
Ad-daliad 'Clwb Undebol y Plant'	209.00
Genhadaeth - Aelodau	120.00
Cymorth Cristnogol	289.00
Apêl 'Operation Christmas Child'	100.00
Banc Bwyd Llanelli	354.60
Trysorfa'r Fynwent:	
Cyfraniadau	600.00
Cyngor Cymuned Llangennech	100.00
Rhoddion:	
Er cof am Parch. Maurice Loader	100.00
Er cof am Parch. E.D.Morgan	100.00
Mrs. Marion Banfield	100.00
Jarett, Awen ac Efa	40.00
Mrs. Jennifer Brain	150.00
Menter Cwm Gwendraeth Elli	50.00
Ad-daliad o Gapel Hope-Siloh	
Cyflog y Gweinidog	5000.04
	£ 37,234.46

PWYLLGOR Y FYNWENT

Ysgrifennydd: Mr. Gwynne Davies
Trysorydd: Mr. Keith Thomas

RHEOLAU'R FYNWENT

- Y mae'r Fynwent o dan reolaeth Pwyllgor Dewisiedig gan yr Eglwys.
- Rhaid i'r bedd fod o fewn naw troedfedd a phedair modfedd o hyd , pump troedfedd o led a saith troedfedd o ddyfnder.
  Length: 9ft 4in Width: 5ft Depth: 7ft
- Ni chaniateir i'r Cwrbyn fod dros saith troedfedd wrth dair troedfedd.
  Curb: 7ft x 3ft
- Y mae pob bedd i'w dorri yn unol a'r cynllun a dynwyd allan gan y Pwyllgor.
- Y Perchenogion fydd yn gyfrifol am y beddfeini pan ail-agorir bedd.
- Fe gyll y perchenogion hawl i feddau nas glanheir cyn y gwyliau pregethu Blynyddol.
- Ymgadwed y rhai a fyddo'n glanhau beddau rhag anurddo beddau eraill. Rhaid iddynt gario'r chwyn i fan penodedig.
- Ni oddefir claddu ar y Sul heb ganiatad y Pwyllgor.
- Rhaid cael caniatad oddi wrth Ysgrifennydd y Fynwent cyn gosod beddfaen yn y Fynwent.
- Ni chaniateir bedd newydd i ddieithriaid.
- Nid cyfrifoldeb y Pwyllgor, na'r Eglwys, yw gofalu am wasanaeth Gweinidog nac Organydd mewn angladdau.

****

RHEOLAU ARBENNIG

Telerau Claddu:

Aelodau: Trysorfa'r Fynwent, £ 50.00

1. Gwaherddir y sawl na fyddo'n aelod rhag ail-agor bedd heb ganiatad ysgrifenedig y perchennog.
2. Ni agorir beddau o flaen y rhes gyntaf tu-cefn i'r Capel.
3. Ar ol gorffen claddu tu-cefn i'r Capel, cleddir ar ochr dde y Capel ar gynllun Claddfa Lawn (Lawn Cemetery).
4. BEDDFAEN: Ddim yn fwy na'r mesuriadau canlynol - 42ins x 36ins x 3ins, ac yn cynnwys llestr blodau os dymunir.
5. Ni chaniateir llestr blodau ar wahan.
6. Gwneler pob cais am le claddu yn y Fynwent i'r Ysgrifennydd.

RHESTR O'R AELODAU YNGHYD A'U CYFRANIADAU
TUAG AT ACHOSION YR EGLWYS

'Ond gwneuthur daioni, a chyfrannu nac anghofiwch canys a chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw.' - Hebreaid xiii, 16.

Dynoda: **(m)** -rhai a hunodd; **(y.l.)** -Ymadael trwy Lythyr; **(y)** -Ymadael;
(d) -Derbyniwyd o'r newydd ac o Eglwysi eraill; **(*)** Rhodd Cymorth.
Dengys Colofn: (1) Casgliad Wythnosol ; (2) Y Genhadaeth; (3) Y Fynwent

DOSBARTH 1 Nant-y-gro, Llwynifan, Allt a Heol Troserch
Dosbarthwr Mrs. Glenda Davies

	Casgliad	Genhadaeth	Fynwent
*Glenda Davies	£ 625.00		£ 20.00
Gareth Davies	£ 50.00		
*Anne Hughes	£ 275.00	£ 10.00	£ 10.00
*Colin Lee	£ 375.00	£ 5.00	£ 10.00
Margaret Lee	£ 375.00	£ 5.00	£ 10.00
*Lynwen Williams	£ 131.25		£ 5.00
*Geraint Williams	£ 62.50		
*Meriel Davies	£ 325.00	£ 5.00	
Sioned Davies	£ 25.00		
Iwan Thomas	£ 100.00		£ 20.00

CYFRIF CYFREDOL

Mewn llaw 1 Ionawr 2024	11,537.08
Holl Dderbyniadau	25,697.38
	£ 37,234.46
Holl Daliadau	- 26,761.12
Mewn llaw 31 Rhagfyr 2024	**£ 10,473.34**

TRYSORFA CYFFREDINOL YR EGLWYS

Cyfrif Cyfredol	10,473.34
Cyfrif 'Nationwide'	66,002.20
	£ 76,475.54

Cyfrif 'Nationwide'

Cyfalaf 2024	**£ 66,002.20**

Cyfraniadau at gynnal y fynwent

Aelodau	£ 415.00
Mr. Dewi Thomas	£ 50.00
Mrs.Yvonne Morgan	£ 100.00
Mrs. Betsan Phillips	£ 25.00
Jennifer a Meirion	£ 10.00
Cyngor Cymuned Llangennech	£ 100.00
	£ 700.00

DOSBARTH 7 Ardal o amgylch Llangennech
Dosbarthwr Mr. Ken John

	Casgliad	Genhadaeth	Fynwent
*Kenneth John	£ 500.00	£ 15.00	£ 15.00
Dinah John	£ 500.00	£ 15.00	£ 15.00
*Hefin John	£ 62.50		
Brian Morris	£ 150.00		
Wynne Harries	£ 250.00	£ 5.00	£ 5.00
Margaret Harries	£ 250.00	£ 5.00	
Cerith Harries	£ 10.00		
Ian Harries	£ 160.00		
Eiddwen Harries	£ 160.00		
Eiddan Harries	£ 25.00		
Owain Harries	£ 25.00		
Kenneth Harries	£ 120.00		
Margaret Harries	£ 120.00		
Emyr Harries	£ 10.00		
Aled Harries	£ 10.00		
Iwan Harries	£ 10.00		
*Jeffrey White	£ 675.00	£ 25.00	
Monica Jenkins	£ 100.00		£ 10.00
Bethan Lewis	£ 40.00		
*Ryan Lee	£ 125.00		
*Parch.Ll.P.Jones	£ 775.00		£ 20.00
Hilda Phillips	£ 110.00		£ 25.00
Elaine Ley	£ 400.00		
Veronica Davies	£320.00		
Rhoddion:			
Lyn a Heulwen Hunt	£ 90.00		
Ellis Thomas	£ 30.00		

DOSBARTH 2 Afon Road, Park Lane, Mwrwg Rd., Bank Road, Tirgof, Heol Pontarddulais a Talyclun
Dosbarthwr Mr.Keith Thomas

	Casgliad £	Genhadaeth	Fynwent
Emyr Lewis			
Yvonne Jones	£ 60.00		
*Hugh Thomas	£ 500.00		£ 5.00
*Keith Thomas	£ 125.00		£ 5.00
David Moore	£ 50.00		£ 20.00
*Gerwyn Matthews	£ 269.00		£ 10.00
Maureen Matthews	£ 269.00		£ 10.00
Parch. Gerald Jones	£ 250.00	£ 7.50	£ 5.00
Mai Jones	£ 250.00	£ 7.50	
*Sian Jones	£ 180.00		

DOSBARTH 3 Station Road , Heol y Maes
Dosbarthwr Mr. Penry Richards

Jean Thomas	£ 100.00		
*Penry Richards	£ 150.00	£ 10.00	£ 10.00
Eleri Phillips	£ 150.00		£ 50.00
*Lynwen Gallimore	£ 318.75		£ 10.00

DOSBARTH 4 Bridge Street
Dosbarthwr Mr. Keith Thomas

	Casgliad	Genhadaeth	Fynwent
Sandra Davies	£ 100.00		
Rhian Phillips	£ 40.00		
Melanie Jenkins	£ 100.00		£ 5.00

DOSBARTH 5 Hendre Road, Plas Isaf, Talywern, Hendre Park

(m) Colin Roberts	
*Aldwyn Beasley	
Gwendoline Davies	£ 110.00
Mari Rees	£ 240.00
*Moira Roberts	£ 325.00

DOSBARTH 6 Brynhyfryd, Pencoed, Cleviston Park, Penllwyngwyn-
Dosbarthwr Mrs. Pamela Richards

	Casgliad	Genhadaeth	Fynwent
Rhian George	£ 50.00		
Paul Edwards	£ 50.00		£ 20.00
Alun Richards	£ 200.00		£ 10.00
Pamela Richards	£ 200.00		£ 10.00
Menna Hughes	£ 110.00	£ 5.00	£ 10.00
Richard Hughes	£ 20.00		
*Gwynne Davies	£ 437.50		£ 10.00
*Meriel Davies	£ 437.50		£ 10.00
Ashley Davies	£ 50.00		
*Nan Jones	£ 125.00		
*Desmond Jones	£ 500.00		£ 15.00
Rita Jones	£ 500.00		£ 15.00
Goronwy Davies	£ 540.00		£ 10.00
Monica Davies	£ 540.00		£ 10.00